Taflen Ffeithiau

Sesiynau Ilwyddiannus gyda'r Dull Chwe Cham

Y Dull Chwe Cham

Gellir darparu gweithgareddau mewn **sawl ffordd**, a dyma un awgrym, ond fel darparwyr rhaid i chi ddod o hyd i ddull sy'n **gweithio i chi** a'ch **cyfranogwyr**. Efallai y byddwch yn defnyddio **gwahanol** ddulliau ar wahanol **adegau** a gyda gwahanol **grwpiau**.

Adolygu

- Gellir dechrau adolygu â **gweithgaredd cynhesu** neu **drwy ddwyn sgiliau/gweithgareddau i gof/ailymweld â sgiliau/gweithgareddau** a ddefnyddiwyd yn y sesiwn ddiwethaf. Mae angen ennyn diddordeb y plant o'r cychwyn cyntaf, a rhaid iddynt fod yn **barod** yn feddyliol ac yn gorfforol ar gyfer y sesiwn. Anogwch y plant i **gymryd cyfrifoldeb cynyddol** am wneud gweithgareddau cynhesu.
- Crëwch **gysylltiadau** rhwng yr hyn yr ydych wedi'i wneud o'r blaen, yr hyn y byddwch yn canolbwyntio arno yn y sesiwn hon a'r hyn yr ydych am ei gyflawni/yn chwilio amdano.
- Sefydlwch **ganlyniadau/cyfleoedd i/ dealltwriaeth** ar gyfer y sesiwn.
- Defnyddiwch yr amser hwn i siarad â'r plant, darganfod sut y maent yn teimlo a beth y maent wedi bod yn ei wneud, **meithrin perthynas** â nhw ac ati. Yn ogystal, mae angen i blant siarad â'i gilydd gan fod **rhyngweithio cymdeithasol** yn ffactor pwysig o safbwynt eu lefelau **cymhelliant** a'u **mwynhad** o'r sesiwn.

Archwilio

- Mae'r plant yn archwilio gweithgaredd/ cysyniad/cydbwysedd, cydsymud ac ystwythder gan ddefnyddio Cardiau Gweithgareddau, ystod o offer a TGCh fel y bo'n briodol. I ddechrau, trefnwch y gerddi/ gweithgaredd ar gyfer y plant. Yna, gweithiwch gyda nhw gan symud ymlaen i ofyn iddynt **drefnu eu** gerddi/gweithgareddau **eu hunain**. Bydd cyflawni hynny'n cymryd **amser**.
- Bydd y plant yn gweithio mewn **grwpiau** bach – yn ôl eu ffrindiau, gallu tebyg, gallu cymysg, grwpiau cymorth, awydd i wneud yr un peth, addasiadau o'r un gweithgareddau/sgiliau/ cysyniadau neu weithgareddau/sgiliau/ cysyniadau gwahanol.
- Dylai'r plant gymryd cyfrifoldeb cynyddol drwy ymwneud ag **addysgu/hyfforddi cymheiriaid, hunanwirio, datrys problemau** ac ati.
- Dylech ddechrau **hyfforddi drwy sgwrsio** gyda'r plant er mwyn **adnabod** pa sgiliau/cysyniadau/ agweddau ar gydbwysedd, cydsymud ac ystwythder/strategaethau/tactegau y maent yn **gallu ymdrin â nhw** a'r rhai lle maent am **wella**.
- Dylech ddatblygu cyfleoedd i'r plant ymgymryd â rolau **arwain/hyfforddi**.

Taflen Ffeithiau

Sesiynau llwyddiannus gyda'r Dull Chwe Cham

Creu

- Dylech ddarparu cyfleoedd i'r plant **gynllunio** gweithgareddau i wella a sefydlu amodau/rheolau.
- Dylech herio'r plant i wneud **addasiadau** i weithgareddau er mwyn diwallu eu hanghenion, eu galluoedd a'u diddordebau a chanolbwyntio ar sgiliau/cysyniadau/cydbwysedd, cydsymud ac ystwythder/strategaethau/tactegau ac ati.
- Dylech weithio mewn **grwpiau** i ymarfer er mwyn gwella/gweithredu syniadau.
- Defnyddiwch y goleuadau traffig ar y Cardiau Sgiliau Technegol i helpu i ddatblygu sgiliau, a defnyddiwch yr **adran 'Newidiadau i'r gweithgaredd'** ar y Cardiau Gweithgareddau i addasu'r gweithgareddau.
- Gallai'r plant addysgu gweithgaredd y maen nhw wedi'i greu, gallent herio grŵp arall i addasu gweithgaredd er mwyn canolbwyntio ar agwedd benodol, neu gallent herio eraill i ymgymryd â heriau penodol.

Ymyrryd

Derbynnir y bydd darparwyr da'n ymyrryd drwy gydol sesiwn, gan gynnal sgyrsiau hyfforddi pryd bynnag y gallant, ond mae cam ymyrryd penodol wedi'i gynnwys er mwyn cefnogi egwyddorion asesu ar gyfer dysgu.

- **Amlygwch** sgiliau/syniadau/gweithredoedd **llwyddiannus**, a'r **hyn sy'n eu gwneud** yn llwyddiannus.
- Dylech hyfforddi drwy sgwrsio er mwyn adnabod agweddau allweddol i'w gwella.
- Gofynnwch i'r plant nodi sut y mae perfformiad **da/llwyddiannus** yn **edrych**, beth y maent yn **ceisio ei wella a pham**.
- Crëwch gysylltiad rhwng eich sgyrsiau hyfforddi a'r hyn yr ydych yn ceisio ei gyflawni/canlyniadau/cyfleoedd i.
- Defnyddiwch **gwestiynau** ar Gerdyn Gweithgareddau i'ch helpu.
- Defnyddiwch **TGCh**, fel y bo'n briodol, i helpu'r plant i **ddadansoddi** eu perfformiadau.

Perfformio

- Rhowch gyfleoedd i'r plant **berfformio**, er enghraifft, **yn erbyn y cloc** i sefydlu eu perfformiadau personol gorau, **gydag eraill**, **yn erbyn eraill**. Er y byddwch yn **canolbwyntio** ar **wella** ac ar berfformiad llwyddiannus yn hytrach nag ar ennill, bydd yn dal yn bwysig i'r plant ddysgu **ymdrin** yn effeithiol ag ennill a cholli. Mae cystadleuaeth **sensitif a phriodol** yn hollbwysig yn ogystal â chyfleoedd i drafod y canlyniad drwy sgwrs hyfforddi.
- Rhowch gyfleoedd i'r plant **drefnu** a **rheoli** agwedd berfformio'r sesiynau, gan weithredu fel **arweinwyr offer/dyfarnwyr/sgorwyr/hyfforddwyr/capteiniaid**, ac ati.

Gwerthuso

- Cynhaliwch sgwrs hyfforddi er mwyn i'r plant **fyfyrio** ynghylch eu perfformiadau eu hunain a pherfformiadau plant eraill, a nodi beth weithiodd yn dda a beth nad oedd mor llwyddiannus.
- Crëwch amgylchedd **cadarnhaol** lle gall y plant **ddysgu o'u camgymeriadau** a deall bod camgymeriadau'n rhan **angenrheidiol** o ddysgu.
- Helpwch y plant i ddefnyddio'r wybodaeth hon i **osod targedau**/penderfynu beth y maent yn dymuno ei gyflawni/beth y maent yn dymuno gweithio arno mewn sesiynau sydd i ddod.
- Trafodwch agweddau y gall y plant **feddwl** amdanynt rhwng nawr a'r sesiwn nesaf, e.e. creu gweithgaredd cynhesu neu addasu gweithgaredd er mwyn canolbwyntio ar…, ac ati.
- Crëwch **gysylltiadau** â'r **sesiwn nesaf**.

sportwales chwaraeoncymru

Noddir gan Lywodraeth Cymru Sponsored by Welsh Government

LOTTERY FUNDED ARIENNIR GAN Y LOTERI

© Hawlfraint (Cyngor Chwaraeon Cymru) 2012. Cedwir pob hawl.